**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020***

**<u>Pwynt Craffu Technegol 1:</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt craffu technegol a godir ac yn cadarnhau bod rheoliad 9(2)(b) wedi ei ddiwygio gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020, a osodwyd ar 27 Tachwedd 2020, i gynnwys paragraff 39 o Atodlen 2.

**<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 5:</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei ddiwygio gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020, a osodwyd ar 27 Tachwedd 2020, i bennu y caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddynodi bod gwaith yn "gwaith llywodraeth hanfodol" at ddibenion yr esemptiad rhag y gofyniad i ynysu sydd wedi ei gynnwys yn y paragraff hwnnw.

**<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 6:</u>**

Mae paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a amnewidiwyd gan reoliad 6(2) o'r Rheoliadau hyn, yn ehangu'r esemptiad i fod yn gymwys nid yn unig i weision i'r Goron a chontractwyr llywodraeth, ond i "unrhyw berson" yr ardystiwyd ei fod yn bodloni'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a) i (c).
Mae is-baragraffau (a) a (b) bellach yn cyfeirio at "busnes hanfodol y wladwriaeth", ac o'r herwydd yn cwmpasu ystod ehangach o waith, tra bo'r ddarpariaeth flaenorol yn gyfyngedig i'r rhai "sy'n cynnal trafodaethau dwyochrog ac amlochrog".
Mae geiriad paragraff 13(1)(c) wedi ei ddrafftio'n fwy eang i gynnwys yn ogystal eraill y mae'n angenrheidiol iddynt ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig i hwyluso gweithrediad yr amrywiol benodiadau swyddogol. Gall hyn gynnwys dibynyddion.